CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

LEWIS DAVIES
**Cynghorydd - Councillor**

Pentrafalyn
Llangoed
Ynys Môn - Anglesey
LL58 8SA

ffôn / tel: (01248) 490248

E-bost: ldxau@ynysmon.gov.uk
E-mail: ldxau@anglesey.gov.uk

Ein Cyf - Our Ref:
Eich Cyf - Your Ref:

Cyfeiriad : P-04-343.

Mai 30ain 2013.

Y Pwyllgor Deisebau.

Annwyl Syr.

PARTHED : DEISEB YNGLŶN A THIR COMIN Y MARIAN, LLANGOED, YNYS MÔN.

Cyfeiriaf at y llythyr a dderbyniais oddiwrth Mr. Richard Parry Jones, Prif Weithredwr, Cyngor Sir Ynys Môn ynghylch â'r tir comin uchod yn Llangoed. 'Rwyf yn falch iawn bod y Pwyllgor Deisebau wedi dangos diddordeb mawr yn y digwyddiad.

Yn dilyn y digwyddiad dwy flynedd yn ôl, pan ddinistriwyd darn helaeth o dir Comin y Marian yn Llangoed gan ddatblygwr, cefais lawer o drafferthion. 'Roedd rhai yn gwneud eu gorau i fy nhanseilio am fy mod wedi sefyll i fyny tros hawliau pobl leol, i wrthwynebu grym tirfeddiannwr, ac 'roedd hyn yn amharu ar fy ngwaith fel Cynghorydd Sir. Diolchaf i'r Prif Swyddog Monitro y Sir am ei chymorth, ond teimlaf nad oes digon wedi ei wneud yn statudol i amddiffyn hawliau tir comin agored.

Mae'r tir wedi ei gofrestru yn enw Cyngor Cymuned Llangoed, ond ychydig 'roeddynt yn medru gwneud i atal y dinistr. Dinistriwyd darn mawr o dir yn ystod mis Mehefin,

CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

LEWIS DAVIES
**Cynghorydd - Councillor**

Pentrafalyn
Llangoed
Ynys Môn - Anglesey
LL58 8SA

ffôn / tel: (01248) 490248

E-bost: ldxau@ynysmon.gov.uk
E-mail: ldxau@anglesey.gov.uk

Ein Cyf - Our Ref:
Eich Cyf - Your Ref:

ond ni allai Swyddfa Natur Heddlu Gogledd Cymru wneud unrhyw beth ynghylch y difrod i gynefin pwysig. Mae'r datblygwr yn dal i yrru peiriannau weithiau ar draws y tir.

Ychydig o bwerau sydd gan Gyngor Cymuned, ac mae rhaid cael mwy o gydweithio gorfodol gyda'r Cyngor Sir. Credaf bod rhaid cael gwell deddfau statudol i sicrhau dyfodol tir agored er mwyn ein plant a chymunedau. Erbyn heddiw gyda amaethyddiaeth ddwys, mae natur dan fygythiad, ac mae y tiroedd comin yn bwysig i natur a llawer o rywogaethau gwyllt.

Buaswn yn falch iawn o ymateb ysgrifenedig i fy sylwadau.

Yr eiddoch yn gywir,

Lewis D